



Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Hosbis Nightingale House

Dyddiad arolygu: 24 a 25

Gorffennaf 2018

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref

2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Hosbis Nightingale House, Wrecsam, ar 24 a 25 Gorffennaf 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, un adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd peth dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf
- Dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal
- Aseidiadau gofal a dogfennaeth
- Cynnal cysylltiadau cryf â'r bwrdd iechyd
- Amgylchedd cyfforddus ac mewn cyflwr da
- Tîm rheoli cydlynus
- Archwilio a llywodraethu clinigol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ailstrwythuro cynlluniau gofal i adlewyrchu'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y claf
- Gwneud yn siŵr bod modd cael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â chwynion
- Diweddarau'r wybodaeth archwilio cwynion sy'n cael ei harddangos
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaeth
- Arddangos canlyniadau archwilio a chofnodi'r gwaith a gwblhawyd yn dilyn archwiliadau
- Cloi'r drysau i'r storfa glanhau a chynnal a chadw pan nad yw'r staff yn bresennol.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn, yn ymwneud â rhai agweddau ar reoli meddyginiaeth ac iechyd a diogelwch. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad

diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Hosbis Nightingale House wedi'i chofrestru fel ysbyty annibynnol. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal lliniarol arbenigol i bobl dros 18 oed. Mwyafswm y cleifion mewnol a all aros yno ar unrhyw adeg yw 16 a mwyafswm y bobl a all fynychu'r ysbyty dydd ar unrhyw adeg yw 15.

Agorwyd Hosbis Nightingale House ym 1995 a chafodd ei chofrestru ag AGIC ar ôl i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 ddod i rym.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol (sef yr unigolyn cyfrifol enwebedig hefyd yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011), meddygon, uwch-ymarferydd nyrsio, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth teulu, gweithwyr cymorth gofal iechyd, staff/rheolwyr ar gyfer ansawdd ac addysg, cyllid a chodi arian, adnoddau dynol, gweinyddu, cadw tŷ, domestig a chynnal a chadw. Mae'r hosbis hefyd wedi'i chefnogi gan dîm o wirfoddolwyr, therapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol y GIG. Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Therapiau a thriniaethau, gan gynnwys ffisiotherapi, gofal lliniarol, rheoli poen a symptomau
- Cymorth emosiynol a gwasanaethau cwnsela, gan gynnwys cymorth teulu a phrofedigaeth
- Cymorth ysbrydol/caplaniaeth
- Therapiau cyflenwol, hydrotherapi, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi
- Therapi creadigol, gan gynnwys celf a chrefft
- Clinig cleifion allanol.

Darparwyd ystafelloedd gwely ar ffurf dwy ystafell ac ynddynt bedwar bae ac wyth ystafell wely sengl. Roedd tair ystafell hefyd wedi'u neilltuo ar gyfer perthnasau a oedd eisiau aros er mwyn cael bod yn agos i'w hanwyliaid. Roedd y gwaith o ailaddurno rhannau o'r hosbis yn parhau ar adeg yr arolygiad, gyda gwaith ailwampio mwy sylweddol wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol, pan ragwelir y bydd yr ystafelloedd pedwar bae yn cael eu troi'n ystafelloedd sengl.

Roedd saith claf yn aros yno ar adeg yr arolygiad a daeth tua phum person i'r uned gofal dydd ar y ddau ddiwrnod.

Cynhaliodd AGIC arolygiad blaenorol o'r gwasanaeth ar 15 Ebrill 2014. Holwyd ynghylch yr un maes ar gyfer gwella y tynnwyd sylw ato yn ystod yr arolygiad blaenorol, yn ymwneud â ffurfioli goruchwyliaeth glinigol, a chadarnhawyd bod camau wedi'u rhoi ar waith i ymdrin â hynny.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn cefnogi cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Gwelsom staff yn ymdrin â chleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd amgylchedd yr hosbis gyfan mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael gwybod eu barn am safon y gofal a gawsant yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau; a hynny'n bennaf gan y cleifion eu hunain, ond cawsom rai gan berthnasau a oedd wedi llenwi holiaduron ar ran y cleifion.

Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn; roeddent o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddir yn yr hosbis yn rhagorol, ac roedd yr holl gleifion yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt, a bod y staff yn darparu gofal pan oedd ei angen. Ymysg y sylwadau am y gofal a ddarperir yn yr hosbis, roedd y canlynol:

"O'i gymharu â'r ysbyty, mae'n nefoedd ar y ddaear. Mae'n rhyddhad bod y staff yn ateb y gloch ac yn rhoi meddyginiaeth pan fydd ei hangen arnaf"

"Dydw i byth wedi gorfod cwyno. Mae'r staff yn wych a bob amser yn barod i roi cymorth"

"Mae'r staff yn dod i weld ei fod yn iawn bob hanner awr. Mae'n defnyddio'r pwll hydrotherapi. Mae'n hapus iawn yma"

“Dim ond ers ychydig oriau rwyf wedi bod yma, ac rwy'n methu credu pa mor hyfryd a thawel yw'r lle. Roedd fy ngŵr yn edrych yn gyfforddus yn y gwely. Mae'r staff i gyd wedi cyflwyno'u hunain, gan egluro am yr hosbis, ble gallwn ni gael rhywbeth i'w fwyta ac yfed ac ati”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Roedd y staff hefyd yn cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau am weithgareddau dyddiol.

Gwelsom fod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar y cleifion, yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai prif flaenoriaethau'r staff yw gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'r perthnasau/gofalwyr.

Roedd polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith, a chawsai'r rhain eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith. Roedd yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelwch personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledu.

Cytunodd yr holl gleifion yn yr holiaduron fod y lleoliad yn lân ac yn daclus.

Urddas a pharch

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Roedd y cleifion hynny a oedd angen help i fynd i'r toiled yn cytuno bod y staff yn helpu gyda'r anghenion hynny mewn ffordd sensitif fel nad oeddent yn teimlo embaras neu gywilydd.

Cadarnhaodd y cleifion hefyd yn yr holiaduron fod ganddynt gloch i alw staff bob amser, a bod y staff yn dod atynt pan oeddent yn ei defnyddio.

Ymddengys bod y cleifion yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i ymddangosiad a dillad y bobl. Gwelsom fod y cleifion yn cael cymorth i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd er mwyn cynnal eu hurddas a hyrwyddo'u hannibyniaeth.

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff yn Nightingale House. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw a'u teuluoedd a'u ffrindiau, a dywedwyd wrthym bod y staff yn defnyddio eu dewis enwau. Dywedodd un claf wrthym:

“Pan rydych yn dod yma gyntaf mae'n teimlo fel petaent yn eich adnabod chi'n barod, mae'n gyfforddus iawn”

Cytunodd y cleifion i gyd fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Roedd yr amgylchedd wedi'i ddylunio mewn modd ystyrlon; roedd yr ystafelloedd yn fawr, ac roedd safon y dodrefn a'r gwaith addurno yn dda iawn. Gallai'r cleifion a'r perthnasau ddefnyddio'r ardaloedd eistedd/bwyta cymunedol, capel anenwadol ac roedd yna hefyd ardaloedd eistedd/lolfa llai i bobl yr oedd yn well ganddynt amgylchedd mwy preifat. Gallai'r perthnasau aros dros nos, naill ai gyda'r claf neu mewn ystafell wedi'i neilltuo i berthnasau. Roedd yna ardd braf, ganolog ac ardal eistedd awyr agored i gleifion ac ymwelwyr.

Roedd cyfleusterau cawod en-suite yn ystafelloedd y cleifion. Roedd yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fawr ac yn cynnwys cyfarpar da.

Rhoddwyd y cyfle i gleifion gymryd rhan mewn gwaith a therapi grŵp neu unigol.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd yr amgylchedd yn dawel, yn ddigynnwrf ac yn helpu'r bobl i ymlacio.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gwybodaeth a llyfrynnau yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn gwahanol rannau o'r hosbis. Roedd y ffolder gwybodaeth i gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a oedd ar gael a nodau a datganiad cenhadaeth. Roedd copïau o'r ffolder gwybodaeth i gleifion ar gael ym mhob ystafell wely a rhoddir copi ohono i gleifion pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty fel rhan o'r pecyn croeso. Roedd yr hosbis hefyd yn cynhyrchu llythyr newyddion yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau codi arian a datblygiadau.

Mae gan yr hosbis ddatganiad o ddiben cynhwysfawr sy'n bodloni gofynion y rheoliadau o ran ei gynnwys.

Roedd Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion (PSAG)¹ wedi'i leoli yn swyddfa'r nyrsys. Roedd y bwrdd wedi'i ddylunio mewn ffordd a oedd yn galluogi i enwau'r cleifion gael eu gorchuddio pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â chleifion a'u perthnasau mewn modd digynnwrf ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio eu dewis enwau. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion yn yr holiaduron eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Cawsom wybod nad oedd llawer o'r cleifion sy'n defnyddio'r hosbis yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, byddai'r hosbis yn trefnu gwasanaeth cyfieithu pe bai angen. Roedd modd trefnu gwasanaethau cyfieithu hefyd i gleifion eraill nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Nid oedd gan yr hosbis gyfleuster dolen glywed i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw, a gwnaethom awgrymu y dylid ystyried gosod cyfleuster o'r fath.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried gosod cyfleuster dolen glywed i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw.

Cynllunio a darparu gofal

¹Mae bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth cleifion mewn wardiau ysbyty.

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion a welsom yn dda ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau gofal cynhwysfawr yn cael eu cynnal a'u bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl hefyd, ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Roedd y gwerthusiadau ysgrifenedig a gaiff eu llunio gan y staff gofalu ar ddiwedd pob sifft yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarperir.

Roedd y gofal a ddarperir yn amlwg yn seiliedig ar anghenion penodol ac amrywiol y claf. Fodd bynnag, nid oedd y dull hwn o weithredu wedi'i adlewyrchu yn fformat cyffredinol y dogfennau cynllunio gofal. O ganlyniad, rydym yn argymhell bod fformat y cynlluniau gofal yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac yn cael eu hysgrifennu o safbwynt y claf.

Roedd poen yn cael ei reoli'n briodol, gydag asesiadau ffurfiol yn cael eu cynnal, eu dogfennu a'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y siartiau rheoli poen yn cael eu cadw gyda siartiau gweinyddu meddyginiaeth y cleifion, er mwyn gallu cyfeirio atynt a'u diwygio wrth weinyddu meddyginiaeth lleddfau poen. Gwelsom y staff yn ymateb yn brydlon pan oedd y cleifion yn dweud eu bod yn anghyfforddus ac yn gofyn am feddyginiaeth lleddfau poen.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd cleifion yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir.

Cynhaliwyd cyfarfod tîm amlddisgyblaethol bob bore i drafod unrhyw newidiadau i anghenion gofal y cleifion. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion i weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs arbenigol hyfywedd meinwe a deietegydd.

Ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn derbyn gofal seibiant, gwelsom fod systemau cynllunio rhyddhau da iawn ar waith, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr hosbis.

Mae'r tîm yn gweithio gan ymgynghori â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a gofal lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Felly, gall staff gael gafael ar gymorth a chyngor arbenigol yn ôl yr angen, er enghraifft gan fferyllwyr a deietegwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid adolygu a diwygio'r cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod eu fformat yn canolbwyntio ar y claf a'u bod yn cael eu hysgrifennu o safbwynt y claf.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, caewyd drysau'r ystafelloedd gwely wrth roi gofal.

Gwelsom fod asesiad o Alluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)² yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen.

Roedd ffurflenni Peidiwch â Dadebru (DNAR) yn cael eu llenwi drwy ymgynghori â'r claf neu ei gynrychiolydd teulu enwebedig.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd Datganiad o Ddiben, ffolder gwybodaeth i gleifion a gwefan yr hosbis yn cyfeirio at y gweithdrefnau pryderon a chwynion. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r weithdrefn gwyno gael ei hysbysebu mewn ffordd fwy gweledol drwy roi posteri mewn mannau amlwg yn yr hosbis a thrwy ddarparu taflenni gwybodaeth ar wahân yn rhoi manylion am sut i godi pryder neu wneud cwyn.

Dywedodd y staff wrthym mai nifer fach iawn o gwynion a geir am y gwasanaeth ac mai'r nod oedd delio â ffynhonnell y cwynion i'w datrys cyn gynted â phosibl ac osgoi'r angen i uwchgyfeirio.

² Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

Mae'r hosbis hefyd wedi'i chofrestru â'r system ar-lein "iWantGreatCare"³, lle gellir gadael sylwadau yn ddiennw. Mae'r hosbis yn derbyn dadansoddiad misol a gaiff ei arddangos mewn man amlwg, er mwyn i gleifion, ymwelwyr a'r staff ei weld. Nid oedd yr wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar adeg yr arolygiad yn gyfoes ac rydym yn argymhell bod y canlyniadau mwy diweddar yn cael eu harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r weithdrefn gwynion gael ei hysbysebu mewn ffordd fwy gweledol drwy roi posteri mewn mannau amlwg yn yr hosbis a thrwy ddarparu taflenni gwybodaeth ar wahân yn rhoi manylion am sut i godi pryder neu wneud cwyn.

Dylai gwybodaeth fwy cyfoes yn ymwneud â chwynion ac awgrymiadau sydd wedi dod i law gael ei harddangos yn yr hosbis i ddangos i gleifion ac ymwelwyr fod cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif ac y cymerir camau i ymdrin â nhw.

³Sefydliad adolygu gofal iechyd annibynnol yw iWantGreatCare, a ddefnyddir yn unol â Gwasanaeth Gofal Lliniarol Cymru Gyfan, lle gellir rhoi adborth ar wasanaethau gofal iechyd mewn modd cyfrinachol. Gellir gweld yr adborth ar-lein drwy <https://www.iwantgreatcare.org/>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu lles a'u diogelwch.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Wrth edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod asesiadau risg o friwiau pwysau yn cael eu cynnal wrth i gleifion gael eu derbyn i'r hosbis, a'u hadolygu yn rheolaidd. Roedd hyn hefyd yn wir am asesiadau risg o syrthio.

Roedd trefniadau diogelwch, gweithio ar alwad a chynllunio at argyfwng priodol ar waith.

Roedd y system larwm tân yn cael ei phrofi bob wythnos ac roedd y cyfarpar ymladd tân yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd offer trydanol cludadwy wedi'u profi yn ôl y gofyn.

Gwelsom fod y drysau sy'n arwain at ystafell cynnal a chadw'r glanhawyr a storfa'r handimon heb eu cloi ar adegau pan nad oedd y staff yn bresennol. Gan fod cemegau ac offer yn cael eu storio yn yr ardaloedd hyn, dylid eu cloi

pan nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion ac ymwelwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cloi drysau sy'n arwain at ystafell cynnal a chadw'r glanhawyr a storfa'r handimon pan nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion ac ymwelwyr.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith, wedi'i gefnogi gan amserlenni glanhau manwl.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r archwiliadau hynny yn cael eu harddangos yn yr hosbis er mwyn i gleifion ac ymwelwyr eu gweld. Rydym yn argymhell bod canlyniadau archwiliadau o'r fath yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg yn yr hosbis, neu yn y pecyn gwybodaeth cleifion, er mwyn i gleifion ac ymwelwyr weld yn glir sut mae'r staff yn perfformio o ran agweddau pwysig ar y gwasanaeth.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai canlyniadau archwiliadau gael eu harddangos mewn mannau amlwg yn yr hosbis, neu yn y pecyn gwybodaeth cleifion, er mwyn i'r cleifion a'r ymwelwyr weld yn glir sut mae'r staff yn perfformio o ran agweddau pwysig ar y gwasanaeth.

Maeth

Wrth edrych ar sampl o ffeiliau gofal cleifion, gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi'u hasesu ar adeg eu derbyn i'r hosbis, a'u hadolygu'n rheolaidd.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion, gyda jygiau dŵr a diodydd wrth erchwyn y gwely.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle'r oedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol at eu hanghenion.

Gwelsom brydau yn cael eu gweini amser cinio a'r staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol.

Lle bo'n briodol, anogwyd perthnasau i ymweld adeg prydau bwyd er mwyn helpu a chefnogi'r cleifion i fwyta. Anogwyd y perthnasau i fod yn rhan o agweddau eraill ar ofal y cleifion hefyd.

Caiff yr holl brydau eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd (gan gynnwys y prydau a weinir yng nghaffi'r hosbis), ac roeddent yn edrych yn dda ac yn flasus iawn. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Dywedodd pob claf a lenwodd yr holiadur ei fod yn cael digon o amser i fwyta'i fwyd ar ei gyflymder ei hunan a bod dŵr ar gael bob amser.

Roedd system effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion deietegol y cleifion, gyda'r staff gofalu a'r staff arlwyo yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd.

Yn ogystal â'r brif gegin, roedd ceginau bach yn yr unedau cleifion dydd a'r unedau cleifion mewnlol. Roedd y staff yn eu defnyddio i baratoi diodydd a byrbrydau.

Rheoli meddyginiaethau

Cawsai'r cleifion eu hasesu i nodi faint o gymorth, os o gwbl, oedd ei angen arnynt er mwyn rheoli eu meddyginiaeth. Roedd system dosbarthu meddyginiaeth electronig ar waith a oedd yn cael ei monitro gan y fferylllydd a gyflogir gan y bwrdd iechyd. Roedd y feddyginiaeth arall, nad oedd yn cael ei storio yn y dosbarthwr electronig, yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau â chlo arnynt yn yr ystafell driniaeth, a dim ond staff yn defnyddio cerdyn allwedd a allai gael mynediad ati.

Roedd pob aelod o'r staff a oedd â chyfrifoldebau am feddyginiaeth wedi'u hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys o ran arferion meddyginiaeth diogel. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n drylwyr. Fodd bynnag, gwelsom aelod o'r staff nyrsio yn llofnodi'r siart rhoi meddyginiaeth cyn rhoi'r feddyginiaeth, ac achos arall lle gwnaeth nyrs gymwys basio meddyginiaeth i fyfyrwr nyrsio i'w rhoi i glaf.

Llofnododd y nyrs gymwys y siart rhoi meddyginiaeth heb weld y claf yn cymryd y feddyginiaeth.

Gwelsom ddau silindr ocsigen yn cael eu storio y tu ôl i gadair yn un o'r ystafelloedd eistedd yn yr uned gofal dydd. Tynnwyd sylw'r Rheolwr Llywodraethu ac Arloesi at y mater hwn, a gweithredodd y Rheolwr ar unwaith i symud y silindrau i'r cyfleuster storio allanol dynodedig.

Daw fferyllydd i'r hosbis bob wythnos i archwilio'r feddyginiaeth a rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth i'r staff.

Roedd bwyd yn cael ei storio mewn oergell yn yr ystafelloedd storio meddyginiaethau. Er nad oedd unrhyw feddyginiaeth yn yr oergell, nid yw'n arfer da i staff storio bwyd mewn ardaloedd clinigol. Gwnaethom dynnu sylw'r Rheolwr Llywodraethu ac Arloesi at hyn, a chymerodd gamau ar unwaith i symud yr eitemau bwyd i'w storio mewn lleoliad mwy priodol.

Dywedwyd wrthym fod tymheredd yr ystafell storio meddyginiaeth yn cael ei fonitro yn wythnosol, a bod yr un peth yn wir am yr oergell storio meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o'r gwiriadau hyn. Rydym yn argymhell y dylid cadw cofnod ysgrifenedig o ddarlleniadau tymheredd yr ystafell storio meddyginiaeth a'r oergell meddyginiaeth. Rydym yn argymhell hefyd y dylai tymheredd yr oergell meddyginiaethau gael ei gofnodi'n ddyddiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau i sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth yn cadw at bolisi rheoli meddyginiaeth yr hosbis a safonau rhoi meddyginiaeth.

Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o ddarlleniadau tymheredd yr ystafell storio meddyginiaeth a'r oergell meddyginiaeth. Dylai tymheredd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau gael ei gofnodi'n ddyddiol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwaed

Roedd polisi trallwysu gwaed ffurfiol ar waith. Roedd un o'r nyrsys cymwys yn cymryd rôl arweiniol yn y gwaith o reoli cynhyrchion gwaed ac roedd ganddi gysylltiadau da â'r gwasanaeth trallwysu gwaed yn yr ysbyty lleol.

Roedd y staff a oedd yn ymwneud â'r broses drallwysu wedi cael hyfforddiant ac roeddent yn cael eu hasesu'n rheolaidd i gadarnhau eu bod yn gymwys.

Roedd gwaed i'w drallwysu yn cael ei gasglu o'r ysbyty lleol yn ôl yr angen, gyda gwiriadau priodol yn cael eu cynnal a chofnodion yn cael eu cadw.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o offer meddygol ac roedd yr offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal cleifion, gwelsom fod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol yn glinigol.

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth gadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

Canfuwyd gennym fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, a hynny yn electronig ac ar bapur.

Roedd cofnodion y cleifion wedi'u cynnal yn dda ac roedd y ffeiliau wedi'u trefnu mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd iddynt.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn yr hosbis, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan eu rheolwyr llinell.

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi llywodraethu ac atebolrwydd yn yr hosbis.

Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau y rhoddir pwyslais ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Gwnaethom dynnu sylw at yr angen i gadw cofnod o'r camau gweithredu a gymerir yn dilyn archwiliadau. Byddai hyn yn rhoi modd ffurfiol o gyflwyno tystiolaeth yn dangos yr ystyriwyd ac yr ymdriniwyd yn llawn ag unrhyw faterion yr oedd angen sylw arnynt.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff a chanfod eu bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r unigolyn cyfrifol (y Prif Swyddog Gweithredol) wedi'i leoli yn yr hosbis. Mae hyn yn ei alluogi i fonitro'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn golygu ei fod ar gael i'r staff, y cleifion a'r perthnasau. Mae aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ymweld â'r ysbyty yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau fe sy'n ofynnol o dan Reoliad 28.

Roedd gan yr Ymddiriedolwyr drosolwg da o'r gwasanaeth drwy eu hymweliadau rheolaidd â'r hosbis a thrwy'r prosesau rheoli adrodd ac uwchgyfeirio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen cadw cofnod o'r camau gweithredu a gymerir yn dilyn archwiliadau. Byddai hyn yn fodd ffurfiol o gyflwyno tystiolaeth yn dangos yr ystyriwyd ac yr ymdriniwyd yn llawn ag unrhyw faterion yr oedd angen sylw arnynt.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y soniwyd eisoes, roedd prosesau sefydledig ar waith i ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y Datganiad o Ddiben, yn y ffolder gwybodaeth i gleifion ac ar y wefan.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r staff er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, ac i ddeall eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn Nightingale House. Derbyniwyd cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau yn y lleoliad.

Dywedodd y staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan y cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion yn ymwneud â phryderon a digwyddiadau, a chanfod yr ymdriniwyd â nhw yn unol â pholisïau'r hosbis.

Roedd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn gwybod bod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu, gan ddweud eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Roedd y staff yn gytûn bod yr adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau deallus er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Dywedodd ambell un o'r staff wrthym yn yr holiaduron eu bod wedi gweld gwallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio'r staff neu'r cleifion.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau, ac yn cytuno ar ôl cael gwybod amdanynt, y byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto.

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â gwall, sefyllfa a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiad yn deg. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn teimlo bod y sefydliad yn ymdrin ag unrhyw wall, sefyllfa a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiad yn gyfrinachol, a dywedodd pob un ond un o'r staff eu bod yn cael adborth am newidiadau a wneir mewn ymateb i wallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau a adroddir.

Yn yr holiaduron, dywedodd y staff i gyd bron eu bod yn teimlo nad yw eu sefydliad yn beio neu'n cosbi pobl sy'n gysylltiedig â gwallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl staff a gwblhaodd yr holiadur pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd pob un o'r staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel ac y byddent yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal y cleifion a oedd yno. Byddai staff ychwanegol yn cael eu dyrannu pe byddai cleifion ag anghenion gofal lefel uchel yn cyrraedd. Roedd yna gronfa o staff wrth gefn y gellid galw arnynt i gynnig darpariaeth ychwanegol pe bai angen.

Anogwyd y staff i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi mewnol ac allanol. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar ddeunydd e-ddysgu, ar gyfrifiaduron.

Mae'r hosbis yn cyflogi Rheolwr Llywodraethu ac Arloesi a oedd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o adolygu polisïau, archwilio a datblygu staff. Dywedodd y Rheolwr Llywodraethu ac Arloesi wrthym ei fod yn ymdrechu i sicrhau bod gan staff fynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd gymwys a'i fod yn gweithio tuag sefyllfa lle roedd y staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn pynciau gorfodol megis diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, iechyd a diogelwch a diogelu.

Nododd y mwyafrif o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd ag ystod eang o hyfforddiant neu ddysgu a datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd

hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, dementia ac Iechyd a Diogelwch. Roedd hanner y staff wedi cwblhau hyfforddiant arall ar breifatrwydd ac urddas wrth ofalu am bobl hŷn fwy na 12 mis yn ôl.

Roedd pob aelod o'r staff yn gytŷn bod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion proffesiynol, yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd y rhan benodol hon o'r holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Lle y bo'n briodol, dywedodd pob aelod o'r staff fod eu rheolwr wedi'u cefnogi i dderbyn y cyfleoedd hyfforddiant, dysgu neu ddatblygu a nodwyd.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron sgorio pa mor aml yr oedd nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'u sefydliad yn berthnasol yn eu profiad nhw. Teimlai'r mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn fod y sefydliad bob amser yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion bob amser yn cael eu grymuso i ddweud a gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysra proffesiynol eu hunain.

Hefyd, dywedodd y staff a atebodd y gyfres hon o gwestiynau yn yr holiadur eu bod yn teimlo bod gan y sefydliad y wybodaeth gywir bob amser er mwyn monitro ansawdd y gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol ac i weithredu'n gyflym pan fydd diffygion. Roedd eu hymatebion hefyd yn cadarnhau bod yna ddiwylliant o fod yn agored a dysgu o fewn yr hosbis, a oedd yn cefnogi'r staff i nodi a datrys problemau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad bob amser yn annog gwaith tîm ac o'r farn mai gofalu am y cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion.

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno'n gryf, pe byddai ffrind neu berthynas angen triniaeth, y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad, ac yn cytuno hefyd y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ynddo.

Holwyd cwestiynau i'r staff am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Roedd y staff yn cytuno ar y cyfan fod eu rheolwr yn annog eu

staff i weithio fel tîm, ac yn dweud y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff wrthym yn yr holiaduron fod eu rheolwyr bob amser yn rhoi adborth clir ar eu gwaith, a'u bod yn gofyn am eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud a fyddai'n effeithio ar eu gwaith. Cytunodd y staff hefyd fod eu rheolwr bob amser yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Holwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiaduron am eu huwch reolwyr. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr adran hon o'r holiadur eu bod bob amser yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwyr yn y sefydliad, ac yn teimlo bod yr uwch reolwyr bob amser yn ymrwymedig i ofal y cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch reolwyr a'r staff ar y cyfan, a bod yr uwch reolwyr fel arfer yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig, ac fel arfer yn gweithredu ar adborth gan staff.

Gwnaeth y staff y sylwadau canlynol am eu tîm rheoli yn yr holiaduron:

“Yn fy mhrofiad i, mae'r rheolwyr wedi bod yn gefnogol ac yn anogol iawn. Maen nhw'n awyddus iawn i fi ddatblygu yn fy rôl”

“Heb os nac oni bai, hwn yw'r tîm mwyaf cefnogol i mi weithio iddo erioed ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n dda iawn”

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion deg aelod o'r staff a chanfod fod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd.

Darparwyd copïau o'r llawlyfr staff i ni. Roedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn am yr hosbis, strwythur y sefydliad, cyfrifoldebau'r staff a'r polisïau a'r gweithdrefnau.

Holwyd y staff yn yr holiaduron a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y swydd, ar y cyfan, yn llesol i'w hiechyd; roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno â'r datganiad. Roedd y staff hefyd yn cytuno bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a lles.

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur hefyd yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran.

Wrth ateb yr holiadur, awgrymodd un aelod o'r staff ei fod wedi cael profiad personol o wahaniaethu yn y gwaith, a hynny gan ei reolwr neu arweinydd tîm neu gydweithwyr eraill yn ystod y 12 mis diwethaf. Tynnwyd sylw'r tîm rheoli at hyn yn ystod y sesiwn adborth ar ddiwedd yr arolygiad. Cytunodd aelodau'r tîm rheoli i ymdrin â'r mater hwn.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom ddau silindr ocsigen yn cael eu storio y tu ôl i gadair yn un o'r ystafelloedd eistedd yn yr uned gofal dydd.	Mae hyn yn torri deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan beri risg o ffrwydrad pe bai tân.	Tynnwyd sylw'r Rheolwr Llywodraethu ac Arloesi at hyn.	Gweithredwyd ar unwaith i symud y silindrau i'r cyfleuster storio allanol dynodedig.
Roedd bwyd yn cael ei storio mewn oergell yn yr ystafelloedd storio meddyginiaethau.	Nid yw'n arfer da i staff storio bwyd mewn ardaloedd clinigol gan fod hyn yn cynyddu'r risg o halogiad a chroes-heintio.	Tynnwyd sylw'r Rheolwr Llywodraethu ac Arloesi at hyn.	Gweithredwyd ar unwaith i symud yr eitemau bwyd o'r oergell i'w storio mewn lleoliad mwy priodol.

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Nightingale House

Dyddiad arolygu: 24 a 25 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid ystyried gosod cyfleuster dolen glywed i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw.	Rheoliad 18. (1) (b) 18. Cyfathrebu effeithiol	Mae dolen glywed gludadwy wedi'i harchebu, yn ogystal ag arwyddion priodol i roi gwybod i gleifion ac ymwelwyr ei bod ar gael. Bydd y ddolen glywed ar gael o 06/09/18.	Tracy Livingstone	Wedi'i gwblhau
Dylid adolygu a diwygio'r cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod eu fformat yn canolbwyntio ar y claf a'u bod yn cael eu hysgrifennu o safbwynt y claf.	Rheoliad 15. (1) 8. Cynllunio a darparu gofal	Mae'r defnydd parhaus o fesurau canlyniadau OACC yn cefnogi'r gwaith o nodi nodau cleifion a blaenoriaethau gofal. Caiff dogfennaeth cynlluniau gofal bresennol ei hailfformatio er mwyn i'r elfennau unigol o'r cynllun gofal gael eu nodi ar y dudalen flaen.	Jane Forbes	6 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r weithdrefn gwynion gael ei hysbysebu mewn ffordd fwy gweledol drwy roi posteri mewn manau amlwg yn yr hosbis a thrwy ddarparu taflenni gwybodaeth ar wahân yn rhoi manylion am sut i godi pryder neu wneud cwyn.</p>	<p>5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth</p>	<p>Mae taflenni gwybodaeth am gwynion ychwanegol wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu o gwmpas yr hosbis fel cam dros dro. Byddant hefyd yn cael eu dylunio a'u hargraffu yn y fformat corfforaethol, a chaiff posteri gwybodaeth eu hychwanegu erbyn diwedd y mis.</p>	<p>Tracy Livingstone Pennaeth Llywodraethu'r Hosbis</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac ar waith ers 6 Medi 2018</p>
<p>Dylai gwybodaeth fwy cyfoes yn ymwneud â chwynion sydd wedi dod i law gael ei harddangos yn yr hosbis i ddangos i gleifion ac ymwelwyr bod cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif ac y cymerir camau i ymdrin â nhw.</p>		<p>Mae'r hosbis wedi prynu hysbysfwrdd newydd, a fydd yn cael ei osod ym mhrif goridor yr hosbis. Bydd y bwrdd yn crynhoi'r wybodaeth am gwynion yn ogystal ag arddangos canfyddiadau archwiliadau a'r camau dilynol a gymerwyd, er mwyn i gleifion yr hosbis ac ymwelwyr ei gweld.</p>	<p>Tracy Livingstone</p>	<p>1 mis</p>
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Dylid cloi'r drysau sy'n arwain at ystafell cynnal a chadw'r glanhawyr a storfa'r handimon pan nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion ac ymwelwyr.</p>	<p>Rheoliad 26. (2) (a) 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae'r drysau wedi'u cloi a rhoddwyd hysbysiadau ar y drysau i atgoffa'r staff i'w cloi pan na fydd yr ystafelloedd yn cael eu defnyddio.</p>	<p>Tracy Livingstone</p>	<p>Eisoes wedi'i gwblhau</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai canlyniadau archwiliadau gael eu harddangos mewn manau amlwg yn yr hosbis, neu yn y pecyn gwybodaeth cleifion, er mwyn i gleifion ac ymwelwyr weld yn glir sut mae'r staff yn perfformio o ran agweddau pwysig ar y gwasanaeth.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r hosbis wedi prynu hysbysfwrdd newydd, a fydd yn cael ei osod ym mhrif goridor yr hosbis. Bydd y bwrdd yn crynhoi gwybodaeth am gwynion yn ogystal ag arddangos canfyddiadau archwiliadau a'r camau dilynol a gymerwyd i gleifion yr hosbis ac ymwelwyr.	Tracy Livingstone	1 mis
Rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau i sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth yn cadw at bolisi rheoli meddyginiaeth yr hosbis a safonau rhoi meddyginiaeth.	Rheoliad 15. (5) (a) (b) 15. Rheoli meddyginiaeth au	Rhannu gwybodaeth am ganfyddiadau'r archwiliad â'r tîm er mwyn tynnu sylw unwaith eto at bwysigrwydd llinell welediad wrth roi meddyginiaethau, a hynny ar unwaith. Gofynnwyd i nyrs datblygu'r practis a nyrsys sy'n rhagnodi ddatblygu sesiwn hyfforddi orfodol newydd yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau, yn cynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol sy'n cefnogi'r polisi rheoli meddyginiaethau – yr hyfforddiant i'w ddatblygu a'i weithredu o fis Ionawr 2019.	Jane Forbes	6 mis
Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o ddarlleniadau		Caiff tymreddau oergelloedd meddyginiaeth eu monitro'n awtomatig	Jane Forbes	1 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
tymheredd yr ystafell storio meddyginiaeth a'r oergell meddyginiaeth. Dylai tymheredd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau gael ei gofnodi'n ddyddiol.		fel rhan o'r system dosbarthu awtomatig, ac mae larwm yn canu os nad yw'r tymheredd o fewn y ffiniau cymeradwy. Cedwir cofnodion o dymereddau ystafelloedd erbyn hyn, gyda thymheredd yr ystafelloedd yn cael eu monitro'n wythnosol.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen cadw cofnod o'r camau gweithredu a gymerir yn dilyn archwiliadau. Byddai hyn yn rhoi modd ffurfiol o gyflwyno tystiolaeth yn dangos yr ystyriwyd ac yr ymdriniwyd yn llawn ag unrhyw faterion yr oedd angen sylw arnynt.	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Caiff canfyddiadau archwiliadau a chamau gweithredu a gymerwyd eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn y prif goridor, a chaiff y gofrestr archwilio ei diwygio i gynnwys canlyniadau a chamau gweithredu.	Tracy Livingstone	1 mis

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Jane Forbes

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 12/09/2018